Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

"Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Mawrth 2011 — Rhifyn 19

Yn y Rhifyn hwn:

•Nifer y Bobl a Laddwyd ar Ffyrdd Cymru ar ei Isaf Erioed •Ymgyrch yn erbyn Gyrwyr Anghyfreithlon •Gwefan Werthuso Newydd •Enzo Calzaghe'n Cefnogi Ymgyrch Gwregysau Diogelwch • Deddf Newydd ynghylch Yswirio Moduron •Bikeability i'r Gogledd • Beicio'n Gall •Bwriad y Llywodraeth i Newid y Rheolau Gyrru ynghylch Golwg y Llygaid • Goleuadau Rhedeg yn ystod y Dydd

Nifer y Bobl a Laddwyd ar Ffyrdd Cymru ar ei Isaf Erioed

Mae Dirprwy Brif Weinidog Cymru, Ieuan Wyn Jones, wedi croesawu ffigurau sy'n dangos bod nifer y bobl a laddwyd ar ffyrdd Cymru ar ei isaf ers dechrau cadw cofnodion ohonyntbegan.

Mae'r ddogfen 'Marwolaethau Traffig y Ffyrdd a Adroddwyd i'r Heddlu, 2010', yn dangos y bu 89 o farwolaethau ar ffyrdd Cymru. Dyma'r nifer isaf ers 1968 – pryd y casglwyd y wybodaeth honno gyntaf yng Nghymru – a'r tro cyntaf i'r ffigur fod yn llai na 100.

Meddai Mr Jones, sydd hefyd yn Weinidog dros yr Economi a Chludiant,

"Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i sicrhau bod ffyrdd Cymru yn fwy diogel ar gyfer pob un sy'n eu defnyddio ac rydym yn croesawu'r ffigurau hyn yn fawr iawn. Dyma'r ffigwr isaf a gofnodwyd erioed yng Nghymru ac mae'n dangos bod hyrwyddo gyrru mwy diogel drwy addysg effeithiol, gwelliannau diogelwch ar ein ffyrdd a chosbau llymach yn talu'i ffordd."

Mae'r adroddiad, a gyhoeddwyd heddiw gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, hefyd wedi darganfod bod lleihad o 71% yn nifer y marwolaethau ymhlith plant yng Nghymru, o'u cymharu â ffigurau 1994-98.

"Er bod y datganiad heddiw yn galonogol iawn, ni fyddwn ac ni allwn fod yn hunanfodlon. Fel y gall yr heddlu, staff Achosion Brys a Damweiniau, arbenigwyr diogelwch ar y ffordd a theuluoedd y rhai sydd wedi'u lladd mewn damweiniau ffyrdd ddweud wrthych, mae angen i bob un ohonom wneud mwy," dywedodd y Gweinidog.

"Mae angen i negeseuon am ddiogelwch ar y ffyrdd barhau i gael eu clywed, yn enwedig ymhlith gyrwyr ifanc. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r consortia trafnidiaeth Rhanbarthol a gweithwyr ym maes diogelwch ffyrdd i weld a oes mwy y gallwn ni ei wneud i addysgu gyrwyr ifanc am beryglon gyrru a'u rhybuddio y gallai rhywbeth fynd o'i le bob tro y byddant yn mynd mewn cerbyd."

Yn ystod 2010, yr oedd 82 o ddamweiniau angheuol yng Nghymru a arweiniodd at 89 o farwolaethau, sy'n 36 yn llai na'r nifer a laddwyd yn ystod 2009, sef cwymp o 29 y cant. Golyga hynny mai yn 2010 y gwelwyd y nifer lleiaf o farwolaethau o ganlyniad i ddamweiniau ar y ffyrdd yng Nghymru ers 1968, sef y tro cyntaf i ffigurau ar wahân gael eu casglu ar gyfer Cymru.

Yn y cyfnod diweddar gwelwyd y nifer mwyaf o farwolaethau ar y ffyrdd yng Nghymru ym 1973 pan laddwyd 424 o bobl, ond ar y cyfan gwelwyd cwymp yn nifer y marwolaethau yn ystod y blynyddoedd dilynol, gan ddisgyn i 161 erbyn 2007. Dros y tair blynedd nesaf gwelwyd lleihad cyson yn nifer y marwolaethau ar y ffyrdd. Erbyn 2010, mae'n bosibl y gwelwyd, wrth edrych ar y patrwm ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan, y nifer lleiaf o farwolaethau ar y ffyrdd yng Nghymru ers yr 1920au.

Mae dyrannu dros £35 miliwn mewn grantiau diogelwch ffyrdd ers 2007 wedi galluogi awdurdodau lleol i roi nifer o brosiectau diogelwch ffyrdd ar waith, a'r prosiectau hynny sydd wedi helpu i sicrhau'r lleihad y gwelwn heddiw yn nifer y marwolaethau.

Cewch ragor o Wybodaeth Ystadegol yn **StatsWales**

Ymgyrch Cymru-gyfan yn erbyn Gyrwyr Anghyfreithlon

Yn ystod chwarter olaf 2010 y gwelwyd un o ymgyrchoedd mwyaf yr heddlu yn erbyn gyrwyr yng Nghymru sydd heb yswiriant, a gyrwyr anghyfreithlon. Cipiwyd bron 350 o gerbydau oddi ar bobl a oedd yn gyrru heb yswiriant.

Llwyddiant mawr fu'r Ymgyrch Cymru-gyfan dan arweiniad Heddlu'r Gogledd rhwng 19 Hydref a 2 Tachwedd 2010 yn erbyn gyrru anghyfreithlon. Fe'i lansiwyd o Orsaf Dân Gymunedol y Rhyl.

Targedodd yr ymgyrch y rhai a oedd yn gyrru heb yswiriant, wedi'u hanghymhwyso, neu'n gyrru heb drwydded ddilys. Drwy gydol yr ymgyrch, defnyddiodd y swyddogion dechnoleg ANPR (Adnabod Platiau Rhif yn Awtomatig) a gweithio'n agos gyda'u cydweithwyr yn Llinell Gymorth yr MIB i'r Heddlu.

"Pwrpas yr ymgyrch oedd atal troseddwyr rhag defnyddio'r ffyrdd, i arbed y gyrrwr cyffredin rhag gorfod talu pris uwch am eu hyswiriant a lleihau anafiadau ar y ffyrdd," meddai Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu'r Gogledd, Gareth Pritchard.

"Er i'r ymgyrch ddod i ben, byddwn yn parhau i dargedu'r rhai sy'n diystyru'n gyfraith ac yn peryglu bywydau defnyddwyr eraill y ffyrdd a byddwn yn gweithio'n agos â'n hasiantaethau parter megis y Biwro Yswiriant Cerbydau a'r DVLA er mwyn targedu gyrwyr anghyfreithlon." Cafwyd cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer y math hwn o ymdriniaeth, a gyda'n gilydd gallwn helpu i wneud ein ffyrdd yn ddiogelach i bawb."

Meddai Sue Storch, Cadeirydd Diogelwch Ffyrdd Cymru a Swyddog Diogelwch Ffyrdd Heddlu Dyfed Powys: "Mae'n siomedig bod rhai gyrwyr yn dewis diystyru'r gyfraith ac yn gyrru'n anghyfreithlon, fodd bynnag mae'n newyddion gwych bod yr heddlu wedi atafaelu dros 400 o gerbydau gan yrwyr anghyfreithlon ledled Cymru yn ystod yr ymgyrch.

"Mae Diogelwch Ffyrdd Cymru eisiau cadw Cymru ar y trywydd iawn i geisio bod yn un o'r gwledydd mwyaf diogel yn y byd i deithio ynddi. Mae nod ein partneriaeth yn un syml, sef sicrhau bod y mwyafrif o ddefnyddwyr y ffyrdd yn gallu defnyddio ein rhwydwaith yn ddiogel ac yn hyderus."

Cychwyn Calonogol i Wefan Werthuso Newydd

Mae dros 200 o ddefnyddwyr wedi ymuno â'r wefan Gwerthuso Diogelwch Ffyrdd sydd wedi'i datblygu gan RoSPA a'r Adran DrafnidiaethDfT.

Mae hi wedi'i chynllunio i helpu ymarferwyr diogelwch ar y ffyrdd i werthuso'u gweithgareddau addysgu, hyfforddi a chyhoeddusrwydd. Ymhlith y defnyddwyr sydd newydd gofrestru mae awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd, yr heddlu, ysgolion gyrru, ymgynghorwyr, a sefydliadau masnachol eraill

Wrth galon y wefan Gwerthuso Diogelwch ar y Ffyrdd mae E-valu-it, arf rhyngweithiol sy'n helpu ymarferwyr i ddiffinio'n union yr hyn y maen nhw'n ei wneud a pham, yn eu helpu i gynllunio a chyflawni eu gwerthusiad, ac yn hybu cyhoeddi a rhannu'r canlyniadau.

Yn ogystal â'r cwestiynau, cewch chi hefyd gyfoeth o wybodaeth ar y wefan am amrywiaeth mawr o bynciau i'w gwerthuso. **Cliciwch yma** i fynd i'r wefan, neu **cliciwch yma** i gysylltu â thîm y prosiect.

Enzo Calzaghe'n Cefnogi Ymgyrch Gwregysau Diogelwch

Mae Enzo Calzaghe, tad a hyfforddwr Joe Calzaghe, y bocsiwr a fu'n Bencampwr y Byd, wedi arfer cynghori bocswyr ynglŷn â'r ffordd orau o'u hamddiffyn eu hunain yn y cylch bocsio.

Bellach, fel rhan o'r ymgyrch 'Dewisiadau Gwregysau Diogelwch' a redir mewn partneriaeth â Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Heddluoedd Gwent a De Cymru, Capita Symonds a Swyddogion Diogelwch ar y Ffyrdd Awdurdodau Lleol, mae Enzo Calzaghe'n annog y cyhoedd i'w hamddiffyn eu hunain wrth deithio mewn cerbydau drwy wisgo gwregys diogelwch bob tro.

Enzo Meddai Enzo Calzaghe: "Rwy'n falch iawn o gefnogi'r ymgyrch hon". Meddai ymhellach: "gall gwisgo gwregys diogelwch arbed eich bywyd os byddwch chi mewn gwrthdrawiad ar y ffordd".

Meddai Neil Brown, Pennaeth Diogelwch ar y Ffyrdd yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru: "Rydyn ni'n falch iawn bod Enzo Calzaghe'n cefnogi'r fenter hynod bwysig hon. Os gall yr ymgyrch gael perswâd ar ragor o bobl i wisgo'u gwregysau wrth deithio, fe welwn ni lai o anafiadau difrifol a marwolaethau ar ein ffyrdd."

Lansiwyd Ymgyrch Gwregysau Diogelwch Cymru-gyfan gan Heddlu'r De yng nghanol tref y Barri ar 1af Chwefror 2011.

Ar addysg a chyhoeddusrwydd y bydd pythefnos cyntaf yr ymgyrch yn canolbwyntio a bydd elfen orfodol yr ymgyrch yn cychwyn ar 14eg Chwefror ac yn dod i ben ar 28ain Chwefror. Yn ystod elfen addysg yr ymgyrch, caiff gyrwyr a theithwyr nad ydynt yn gwisgo gwregys diogelwch gyfle i ddewis mynd i ddigwyddiad pwrpasol yn hytrach na chael eu herlyn. Yn y digwyddiad cânt gyflwyniad gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar beryglon peidio â gwisgo gwregysau diogelwch. Cynhelir y cyflwyniadau mewn amrywiol Orsafoedd Tân a'u bwriad yw cynyddu ymwybyddiaeth pobl o ganlyniadau arswydus peidio â gwisgo gwregys diogelwch.

Y DVLA yn Atgoffa Modurwyr o Ddeddf Newydd ynghylch Yswirio Moduron

Mae'r DVLA, ar y cyd â Swyddfa'r Yswirwyr Moduron (yr MIB) a Chymdeithas Broceriaid Yswiriant Prydain (y BIBA), wrthi'n atgoffa gyrwyr mai effaith deddf newydd a gaiff ei chyflwyno ddiwedd y gwanwyn yw bod rhaid iddynt yswirio'u cerbyd oni fyddant wedi rhoi gwybod i'r DVLA ei fod yn cael ei gadw oddi ar y ffordd.

Caiff gwybodaeth am y ddeddf newydd ei dosbarthu gyda phob ffurflen adnewyddu treth V11 o fis Mawrth ymlaen, yn ogystal ag yn yr arweiniad a'r fideo sydd bellach ar gael ar Directgov.

Meddai David Evans, cyfarwyddwr materion corfforaethol y DVLA: "Fe wyddon ni fod gyrwyr heb yswiriant yn berygl ar ein ffyrdd ac yn ychwanegu rhyw £30 at bremiwm y modurwr gonest."

Meddai Graeme Trudgill, pennaeth materion corfforaethol y BIBA:

"Bydd Gorfodi Yswiriant Parhaus yn helpu i leddfu'r baich o £500 miliwn y mae gyrwyr di-yswiriant yn ei osod ar yrwyr sydd wedi'u hyswirio. Dylai ceidwaid cerbydau sicrhau eu bod nhw wedi'u hyswirio neu eu bod yn llenwi'r ffurflen SORN os yw eu cerbyd oddi ar y ffordd. Gall ceidwaid cerbydau bob amser holi askmid.com neu siarad â'u brocer neu eu cwmni yswiriant os nad ydyn nhw'n siŵr."

I gael gwybod rhagor, ewch i **direct.gov.uk/stayinsured**.

Awdurdodau Lleol y Gogledd yn Mabwysiadu Bikeability

Arwyddair Bikeability yw sicrhau 'hyfedredd beicio ar gyfer yr 21ain Ganrif' a bydd yn helpu i gael 'rhagor o blant i feicio, a hynny'n amlach ac yn fwy diogel'.

"I ni, mae cyflwyno Safonau Cenedlaethol Hyfforddiant Beicio yn gam pwysig yn y ffordd y rhoddwn ni hyfforddiant i feicwyr. Ar ben hynny, mae gallu rhoi hyfforddiant o dan frand Bikeability yn rhoi i'n cleientiaid yr hyder ychwanegol a ddaw o ddilyn cynllun sy'n cael ei gydnabod ledled y wlad," meddai Dafydd Edwards, Swyddog Diogelwch y Ffyrdd, Conwy.

Fe'i cyflwynir yng Nghymru gan CTC, y Sefydliad Beicwyr Cenedlaethol, fel rhan o brosiect a ariannir gan Lywodraeth y Cynulliad.

Meddai'r Gweinidog Amgylchedd, Jane Davidson:

"Fel beiciwr brwd, rwy'n awyddus i hybu llawer mwy o feicio yng Nghymru fel modd o deithio a hamddena. Oherwydd hynny, lansiodd y Dirprwy Brif Weinidog a minnau Gynllun Gweithredu Cerdded a Beicio Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2009. Mae'n nodi sut y byddwn yn annog llawer mwy o bobl yng Nghymru i gerdded a beicio'n rheolaidd.

"Bydd hyfforddiant Bikeability yn helpu pobl ifanc yng Ngwynedd a Chonwy i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd arnyn nhw'u hangen i feicio'n ddiogel. Gobeithio y bydd hefyd yn eu hannog i feicio'n gyson. Drwy feicio mwy a defnyddio'n ceir yn llai gallwn ryddhau llai o garbon a lleihau ôl troed carbon Cymru yn sylweddol a helpu i sicrhau ein bod ni'n cadw'n heini, yn iach ac yn hapus."

Mae Gwenda Owen, Swyddog Datblygu Hyfforddiant Cymru CTC, wedi bod wrthi'n gweithio gyda Gwynedd a Chonwy er mwyn iddynt allu bod yr Awdurdodau Lleol cyntaf yng Nghymru i gofrestru'n ddarparwyr Bikeability.

Medd Gwenda: 'Wrth ddangos cymaint o ymrwymiad i Bikeability, maen nhw'n sicrhau bod pobl ifanc yng Ngwynedd a Chonwy'n cael y sgiliau a'r hyder i feicio i ble bynnag y mae angen iddyn nhw fynd: i'r ysgol, i weld ffrindiau ac i fwynhau eu hamdden. Bydd hynny'n fodd i bobl ifanc elwa o bopeth sydd gan feicio i'w gynnig o ran iechyd, annibyniaeth a chynaladwyedd.'

"Mae Cyngor Gwynedd yn teimlo'i bod hi'n fraint cael cofrestru gyda Bikeability. Mae hynny'n golygu y gallwn ni rŵan deimlo'n ffyddiog bod yr Hyfforddiant Beicio a roddwn ni yn ein Hysgol Gynradd o'r safon uchaf a bod yr Adran Drafnidiaeth wedi'i gymeradwyo," meddai Mai Jones, Cydlynydd y Cynllun Teithio Gwyrdd.

Darperir hyfforddiant Bikeability yn Sir Ddinbych hefyd, ac mae ef ar gael mewn rhannau eraill o Gymru drwy sefydliadau hyfforddi cofrestredig. Mae'r rhaglen o fwrsariaethau wedi sicrhau bod modd i bob Awdurdod Lleol, bellach, allu troi at Hyfforddwyr y Safon Genedlaethol, a bod y mwyafrif ohonynt yn gweithio i geisio rhoi hyfforddiant o'r safon honno.

I gael gwybod rhagor, ffoniwch Gwenda Owen ar 07825 081097

Beicio'n Gall

Mewn partneriaeth â CTC, sefydliad beicwyr cenedlaethol y DU, mae Diogelwch Ffyrdd Cymru wedi diweddaru'r adnodd dwyieithog *Beicio'n Gall* i gyd-fynd yn well â'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddiant Beicio.

Mae Awdurdodau Lleol ac asiantaethau eraill wedi archebu dros 30,000 o gopïau i'w dosbarthu i feicwyr ifanc ledled Cymru. Mae copi o'r fersiwn diweddaraf hefyd i'w weld yn www.roadsafetywales.co.uk/resources

Bwriad y Llywodraeth i Newid y Rheolau Gyrru ynghylch Golwg y Llygaid

Bwriad y llywodraeth yw diwygio isafswm y safonau meddygol i yrwyr ynghylch golwg eu llygaid, epilepsi a diabetes, fel y disgrifiwyd yn y ddogfen ymgynghorol a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Cerbydau a Thrwyddedu Gyrwyr.

Mae'r mesurau'n gysylltiedig â gweithredu isafswm safonau meddygol Ewrop i yrwyr. Er bod rhaid i safonau'r DU fod o leiaf ar lefel isafswm y safon, does dim rhaid llacio'r safonau presennol yn y wlad hon os gellir cyfiawnhau eu cadw'n uwch na safonau'r UE.

Meddai'r Gweinidog Diogelwch ar y Ffyrdd, Mike Penning, "Gan Brydain y mae rhai o'r ffyrdd mwyaf diogel yn y byd ac mae gan reolau trwyddedu rôl bwysig wrth gadw'r sefyllfa honno fel y mae hi. Rhaid i ni sicrhau mai'r unig rai sy'n cael gyrru ar ein ffyrdd yw'r rhai sy'n ddiogel i wneud hynny ond, yr un pryd, rhaid osgoi gosod cyfyngiadau diangen ar annibyniaeth pobl.

"Ar ôl cymryd cyngor arbenigwyr ynglŷn â'r dystiolaeth ddiweddaraf am olwg llygaid, epilepsi a diabetes, rydyn ni'n credu bod y cynigion hyn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir wrth adael i gynifer â phosibl o bobl yrru heb i hynny amharu ar ddiogelwch."

Goleuadau Rhedeg yn ystod y Dydd

Goleuadau rhedeg yn ystod y dydd yw'r lampau ar gerbydau sy'n tanio'n awtomatig pan gaiff y peiriant ei danio. Golygant fod cerbydau modur gryn dipyn yn haws eu gweld.

Er nad oes gofyn i yrwyr ond tanio'u goleuadau yn y tywyllwch yn y mwyafrif o wledydd, mae'r goleuadau hyn wedi'u cynllunio i ddisgleirio yn ystod y dydd. Yn wahanol i brif lampau confensiynol, ni fyddant yn helpu'r gyrrwr i weld y ffordd ond, yn hytrach, fe helpant ddefnyddwyr eraill y ffordd i weld y cerbyd sy'n dod tuag atynt.

O 2011 ymlaen, bydd y lampau'n orfodol ar bob car newydd a phob fan ddosbarthu fach newydd yn yr UE. Bydd hynny'n wir am lorïau a bysiau o fis Awst 2012 ymlaen. Ni fydd angen gosod lampau ar y cerbydau presennol. Mae gan 17 o wledydd yr UE ryw ffurf ar ddeddfwriaeth ynghylch lampau o'r fath eisoes . Cliciwch **yma** i gael gwybod rhagor am effaith gweithredu'r ddeddf hon.

Casglwr: Michelle Harrington, RoSPA mharrington@rospa.com

02920 250 600

Nid yw RoSPA yn gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.